# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 7
11/05/20

# Y ffordd, y gwirionydd a'r bywyd

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy & Rachel Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams, Becca Ambrose, Elin Bryn & Greg Leavers

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Dwedodd Iesu

**Fersiwn Beibl.net**
"Peidiwch cynhyrfu," meddai Iesu wrth y disgyblion, "Credwch yn Nuw, a chredwch ynof fi hefyd. Mae digon o le i fyw yn nhŷ fy Nhad; byddwn i wedi dweud wrthoch chi os oedd hi fel arall. Dw i'n mynd yno i baratoi lle ar eich cyfer chi. Wedyn dw i'n mynd i ddod yn ôl, a bydda i'n mynd â chi yno gyda mi, a chewch aros yno gyda mi. Dych chi'n gwybod y ffordd i ble dw i'n mynd."
"Ond Arglwydd," meddai Tomos, "dŷn ni ddim yn gwybod lle rwyt ti'n mynd, felly sut allwn ni wybod y ffordd yno?"
**"Fi ydy'r ffordd,"** atebodd Iesu, **"yr un gwir a'r bywyd.** Does neb yn gallu dod i berthynas gyda Duw y Tad ond trwof fi. Os dych chi wedi dod i fy nabod i, byddwch yn nabod fy Nhad hefyd. Yn wir, dych chi yn ei nabod e bellach, ac wedi'i weld."

*Ioan 14:1-7 Beibl.net*

# Stori



**Fersiwn Beibl.net**
"Pam dych chi'n fy ngalw i'n 'Arglwydd' ac eto ddim yn gwneud beth dw i'n ddweud? Gwna i ddangos i chi sut bobl ydy'r rhai sy'n gwrando arna i ac yna'n gwneud beth dw i'n ddweud. Maen nhw fel dyn sy'n mynd ati i adeiladu tŷ ac yn tyllu'n ddwfn i wneud yn siŵr fod y sylfeini ar graig solet. Pan ddaw llifogydd, a llif y dŵr yn taro yn erbyn y tŷ hwnnw, bydd yn sefyll am ei fod wedi'i adeiladu'n dda. Ond mae'r rhai sy'n gwrando arna i heb wneud beth dw i'n ddweud yn debyg i ddyn sy'n adeiladu tŷ heb osod sylfaen gadarn iddo. Pan fydd llif y dŵr yn taro yn erbyn y tŷ hwnnw, bydd yn syrthio'n syth ac yn cael ei ddinistrio'n llwyr."

*Luc 6:46-49 Beibl.net*

**Fersiwn syml**
Dwedodd Iesu, 'Fi ydy'r ffordd, yr un gwir a'r bywyd. Mae pobl sy'n gwrando arna i ac yn gwneud beth dw i'n ddweud fel dyn sy'n adeiladu tŷ ar y graig. Pan ddaw glaw a llifogydd, bydd ei dŷ yn iawn. Ond mae'r rhai sy'n gwrando arna i a ddim yn gwneud beth dw i'n ddweud fel dyn sy'n adeiladu tŷ ar y tywod. Pan ddaw y llifogydd bydd ei dŷ yn syrthio i lawr!'


# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y stori efo'n gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1. Pa reolau i'ch cadw'n sâff sydd yna wrth groesi'r ffordd?
2. Beth sy'n beryg' o ddigwydd os nad ydych chi'n gwrando ar y rheolau hyn?
3. Pa adeiladwr yn y stori oedd wedi dewis y lle gorau i adeiladu'i dŷ?
4. Pam ei fod yn beth da gwrando ar beth mae Iesu'n ei ddweud?



# Lliwio


Y Ffordd
Dwedodd Iesu,
"Fi ydy'r ffordd,
yr un gwir a'r bywyd.
Does neb yn gallu
dod i berthynas gyda
Duw y Tad ond
trwof fi."
Ioan 14 adnod 6

# Lliwio





# Chwilair

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | W | Y | N | CH | W | A | L | U | A |
| O | A | D | G | G | W | N | E | U | D |
| I | L | DD | Y | G | O | F | I | LL | E |
| TH | G | W | E | N | I | N | U | D | I |
| R | LL | E | C | O | T | A | R | O | L |
| Y | I | R | M | F | T | Y | R | U | A |
| S | Y | L | F | A | E | N | G | C | D |
| F | T | Y | W | O | D | S | Y | O | U |
| G | Y | S | E | F | Y | LL | D | W | L |
| C | A | LL | O | D | N | A | R | W | G |

ADEILADU
CALL
CRAIG
CRYF
CHWALU
DAMEG
DWL
GWNEUD
GWRANDO
GWYNTOEDD
LLIFOGYDD
SEFYLL
SYLFAEN
SYRTHIO

# Posau

Helpa'r dyn hwn i ddod
o hyd i'r ffordd at Iesu



Mae geiriau'r adnod wedi eu cymysgu bob sut. Fedri di eu rhoi yn ôl yn eu trefn?




"iF y'ryd ddrffo," beddaot seul,

"__ ___'_ _____," ________ _____

"ry nu wgir 'ra wybdy.

"__ __ _____ _'_ ______.

osDe enb ny lluga odd i easthbynr

_____ ____ __ _____ ____ _ __________

dyag uDw y dTa don fwtor if".

_____ ____ _ ____ ____ ______ __".

# Sialens

Ceisia adeiladu tŵr allan o flociau gan ddefnyddio gwahanol arwynebeddau gwahanol fel sylfaen.
Fe allet ti roi cynnig ar bridd, tywod, creigiau, bwrdd neu hyd yn oed jeli!








**Y ffordd**

Gwna fap o’r ffordd rwyt ti’n mynd am dro o gwmpas dy gartref.




Beth am geisio gwneud modelau o'r 2 dŷ yn y stori gan ddefnyddio Lego?



# Gweddi fer


O Dduw, diolch i Ti am y stori ddwedodd Iesu
am y ddau dŷ.
Diolch i ti ein bod yn gallu trystio Iesu am
ei fod yn fab i Ti.
Diolch i Ti fod beth mae Iesu’n ddweud
fel sylfaen dda i dŷ.
Rydan ni’n gallu trystio beth mae Iesu’n ddweud.

*Amen*



# Crefft

## Adeiladu tŷ




Templed y tŷ





**Byddi angen :**
Templed y tŷ a thempled y to wedi'u hargraffu ar gerdyn gwyn

Cerdyn gwyrdd
Pinnau ffelt
Siswrn, Glud

1. Â siswrn torra ar hyd y llinellau du ar y templed o'r tŷ.
2. Cymer ddarn o'r cerdyn gwyrdd a gwna amlinelliad o'r to arno. Torra fo allan. Hwn fydd y sylfaen i ti osod y tŷ arno.
3. Plyga'r cerdyn ar hyd y llinellau llwyd.
4. Tynna lun a lliwia'r ffenestri a'r drysau ar dy dŷ. Tynna lun a lliwia'r teils ar y to.
5. Rho lud ar tab 1 a gluda'r tŷ wrth ei gilydd.
6. Rho lud ar y tabiau eraill a'u gludo i'r sylfaen.
7. Plyga dempled y to yn ei hanner a'i osod ar ben y tŷ.

*Os oes gen ti gannwyll fach batri beth am i ti ei rhoi tu mewn i'r tŷ er mwyn ei oleuo.*



Templed y to

# Crefft


# Barcud



**Byddi angen:**

Cerdyn gwyn A4, sgiwer bambŵ, bagiau bin gwyn (neu rubanau), llinyn tenau neu ril o gotwm cryf, silindr cardfwrdd tu mewn i 'Kitchen roll,' pinnau ffelt, siswrn, pren mesur, tâp selo,tyllwr





1. Plyga'r cerdyn gwyn A4 yn ei hanner.



2. Gwna ddot ar dop y cerdyn rhyw fodfedd o'r plyg. Gwna ddot ar waelod y cerdyn rhyw fodfedd o'r ochr sy'n agor. Tynna lun linell i gysylltu'r ddau ddot.



3. Plyga dop cornel y cerdyn ar hyd y llinell rwyt ti newydd wneud llun ohoni.



4. Tro'r cerdyn drosodd a phlyga'r ochr arall i gyfateb â'r plyg rwyt ti eisoes wedi'i wneud.




5. Lliwia neu addurna'r barcud ar y ddwy ochr. Ysgrifenna "Fi yw'r ffordd," meddai Iesu.



6. Plyga'r cerdyn fel ei fod yn edrych fel y llun uchod. Defnyddia dâp selo ar hyd y crych canol.



7. Gosoda sgiwer bambŵ ar draws y llun fel y gweli di yn y llun uchod. Torra'r sgiwer fel ei fod o'n ffitio. Defnyddia dâp selo i'w osod yn ei le.



8. Tro'r barcud drosodd a sytha'r meingefn (spine) . Marcia smotyn traean o'r ffordd i lawr a rho dâp selo yna er mwyn cryfhau'r ddwy ochr.




9. Defnyddia'r tyllwr i wneud twll yn agos i'r smotyn.



10. Torra ddarn oddi ar y silindr cardfwrdd – tua 3 modfedd.




11. Defnyddia dâp selo i lynu pen y llinyn i'r silindr cardfwrdd. Weindia'r llinyn o gwmpas y silindr cardfwrdd.



12. Gwthia'r pen arall i'r llinyn drwy'r twll wyt ti eisoes wedi'i wneud. Clyma fo'n dynn â chwlwm cryf.



13. Rho'r bag bin yn fflat ar y bwrdd. Torra stribedi tua modfedd o led. Torra damaid bob pen.



14. Gwahana'r stribedi a'u glynu â'r tâp selo i waelod y barcud. Dau ar flaen y barcud a dau ar y tu ôl, ar ei waelod.



**Nawr mae'r barcud yn barod i'w hedfan.**

Tydy'r barcutiaid hyn ddim angen llawer o wynt i'w codi. Gwna'n siwr fod y meingefn canol yn syth cyn i'r barcud ddechrau esgyn. Joia!

# Gweddi Greadigol

## Gadael neges


**Bydd angen:**

- Carreg – gymaint a dy ddau ddwrn
- Pinnau ffelt neu baent
- Yr adnod: “Fi ydy'r ffordd,” atebodd Iesu, “yr un gwir a'r bywyd. Does neb yn gallu dod i berthynas gyda Duw y Tad ond trwof fi”.

**Beth i’w wneud:**

- Tynna lun tŷ a geiriau’r adnod ar y garreg gyda phaent a phinnau ffelt sy’n gwrthsefyll dŵr.
- Y tro nesaf y byddi’n mynd am dro rho’r garreg yn rhywle ar ymyl y ffordd neu’r llwybr y byddi’n ei gerdded. Gofynna i Dduw helpu pobl i ddarllen geiriau Iesu wrth iddyn nhw fynd heibio.
- Os wyt ti eisiau, gelli di roi carreg wrth ddrws neu giât dy dŷ.






## Tŷ gweddi

**Bydd angen:**

- Bocs cardfwrdd
- Pinnau ffelt neu baent
- Glud neu dâp selo

**Beth i’w wneud:**

- Defnyddiwch y bocs i wneud tŷ gan ei addurno i edrych yn debyg i’ch tŷ chi neu rywun rydych yn ei adnabod.
- Ar ôl i chi orffen eich tŷ ysgrifennwch weddi dros bobl sy’n byw yn eich eich ymyl, dros deulu neu ffrindiau, neu tynnwch lun o’r bobl rydych chi eisiau gweddïo drostyn nhw.

Os ydych chi’n dymuno, gallech wneud mwy nag un tŷ bocs e.e. lle sy’n debyg i’ch stryd neu eich pentref chi. Neu gallech wneud dai eich teulu a’ch ffrindiau. Wedyn ysgrifennwch weddi ar bob tŷ.






# Gemau



## Mewn munud!

**Bydd angen:**
- Ceiniogau - tua 20
- Marshmallows a spaghetti neu ffyn bach cocktail
- Amserydd – oriawr neu ffôn neu amserydd ŵy


**Sut i chwarae**
Cystadleuaeth ydy hon i weld pwy fedr adeiladu'r tŵr uchaf mewn munud.
- Y sialens gyntaf ydy adeiladu'r tŵr uchaf o geiniogau heb iddyn nhw syrthio.
- Yr ail sialens ydy adeiladu'r tŵr uchaf gan ddefnyddio marshmallows a spaghetti neu ffyn bach cocktail.




## Cwrs rhwystrau gyda mwgwd


**Bydd angen:**
- Papur gyda drysfa syml arno
- Pensil
- Mwgwd
- 2 chwaraewr

**Sut i chwarae**
- Mae un chwaraewr sy'n gwisgo'r mwgwd yn cael pensil a phapur gyda'r ddrysfa arno.
- Mae'r chwaraewr arall yn dweud wrth y chwaraewr gyda'r mwgwd pa ffordd i fynd ar hyd y ddrysfa.
- Rhaid gwrando'n ofalus a gwybod pa ffordd mai'r dde a'r chwith!





# Canu



Fi ydy'r ffordd, mae Iesu'n dweud
Fi ydy'r gwir, mae Iesu'n dweud
Fi ydy'r ffordd, y gwir a'r bywyd

'Sneb yn dod at y Tad yn y nefoedd
Mae Iesu'n dweud, heblaw trwof fi,
Fi ydy'r Ffordd, y Gwir a'r Bywyd
Ioan un deg pedwar adnod chwech.

Hawlfraint 2012 Greg Leavers /Chris Dean Cyf. Cass Meurig

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/1BvWtKx0tXM

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen noddiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

Unwaith eto, mae'r stori'r wythnos hon yn cael ei chynnwys mewn llyfr arbennig gyhoeddwyd gan Cyhoeddiadau'r Gair o'r enw 'Storiau'r Meistr.'




Beth am archebu copi heddiw i fwynhau efo'ch teulu?
http://www.gwales.com/bibliographic/?lang=CY&tsid=6
Mae fersiwn i'w liwio ar gael hefyd:
http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781859945575/?lang=CY&tsid=7

# Dolenni



Sgetsh bypedau https://youtu.be/V297Cvwcpzo
Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/1BvWtKx0tXM
Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/
Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://youtu.be/Pxy_pE5nzVY (cliciwch 'Subscribe')
Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home
Cartŵn o'r stori http://beibl.net/adeiladwr-call-ac-adeiladwr-twp
Cartŵn o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=16S3cRVLMFQ
Fideo o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?V=B3m9N3m6TN8